



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# **Adolygiad rhyngwladol o fodolau rheoleiddio ar gyfer diogelwch adeiladau**

**Charlotte Morgan, Helen Tilley, Thomas Haines-  
Doran, Dan Bristow**

Mai 2023



# Ein cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i gymhwyso. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle y mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a allai helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Arianwyr craidd



**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin cydberthnasau rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, **Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg,

llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

gwidol o fodolau rheoleiddio ar gyfer diogelwch adeiladau

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>Modelau rheoleiddio sengl o gymharu â rhai lluosog</b>	<b>6</b>
<b>Y Cefndir</b>	<b>6</b>
<b>Buddiannau a risgiau sy'n gysylltiedig â modelau rheoleiddio sengl a lluosog</b>	<b>8</b>
<b>Cyflawni'r nodau a lliniaru risgiau ad-drefnu</b>	<b>10</b>
<b>Pwysigrwydd sicrhau gallu digonol</b>	<b>12</b>
<b>Gorfodi a sancsiynau</b>	<b>14</b>
<b>Thema allweddol 1: Defnyddio gorfodi a sancsiynau i feithrin newid ymddygiad</b>	<b>14</b>
<b>Thema allweddol 2: Ariannu modelau gorfodi a sancsiynau</b>	<b>18</b>
<b>Thema allweddol 3: Y dulliau mwyaf a lleiaf effeithiol o orfodi a sancsiynau</b>	<b>20</b>
<b>Casgliad</b>	<b>23</b>
<b>Cyfeirnodau</b>	<b>25</b>
<b>Atodiad 1: Cyfranogwyr bord gron</b>	<b>29</b>
<b>Atodiad 2: Enghreifftiau o bwyllgorau cydlynu canolog</b>	<b>30</b>

# Crynodeb

- Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru grynhoi'r dystiolaeth ryngwladol ar fodelau rheoleiddio ar gyfer diogelwch adeiladau, cyn drafftio deddfwriaeth gyda'r bwriad o ddiwygio'r trefniadau rheoleiddio diogelwch adeiladu yng Nghymru i'w wneud yn fwy effeithiol. Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r drafodaeth o gyfarfod bord gron rhwng arbenigwyr academiaidd a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022, wedi'i ategu gan lenyddiaeth.

## Cymharu rheoleiddwyr sengl a lluosog

- Gallai union ffurf sefydliadol rheoleiddiwr fod yn llai hanfodol na sicrhau bod gan y rheoleiddiwr adnoddau digonol ar gyfer monitro, casglu a dadansoddi data, datrys problemau, a, phan fo angen, sancsiynu camau gweithredu.
- Er nad yw model rheoleiddio sengl na lluosog o reidrwydd yn well, gallai sefydlu pwyllgor cyffredinol sy'n gweithredu fel un pwynt cyswllt wella amlygrwydd a pha mor hawdd yw ymgysylltu â'r Unigolyn Atebol.
- Wrth ddiwygio'r model rheoleiddio, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pwy sy'n atebol ac am beth y maent yn atebol.
- Gallai defnyddio system gofrestru ei gwneud yn haws i reoleiddiwr

benderfynu pa adeiladau sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd a hefyd targedu Unigolion Atebol gyda mesurau gorfodi a sancsiynau pan fo angen.

- Mae angen sefydlu seilwaith data cadarn i ganiatáu dealltwriaeth o'r nifer o adeiladau o fewn y cwmpas ledled Cymru.

## Dulliau gorfodi a sancsiynau

- Dim ond un rhan o'r 'pecyn cymorth' sydd ei angen i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd â rheoliadau diogelwch adeiladau yng Nghymru yw gorfodi a sancsiynau. Bydd ymgysylltu â'r Unigolyn Atebol a phreswylwyr a'u haddysgu yn gamau gweithredu cyntaf allweddol.
- Roedd trafodaethau ar effeithiolrwydd gorfodi a sancsiynu ar gyfer newid ymddygiad yn canolbwyntio ar addysgu preswylwyr. Drwy gysylltu diogelwch adeiladau â meysydd eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol, mae'r potensial i sicrhau bod addysg yn cael ei darparu trwy sianeli ychwanegol.
- Mae diffyg tystiolaeth sy'n cyfeirio at effeithiolrwydd gorfodi a sancsiynau ar gyfer adeiladau presennol. Fodd bynnag, dylid ystyried gwahanol ddulli, megis ataliaeth neu 'enwi a chywilyddio'.

# Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru grynhoi'r dystiolaeth rhyngwladol ar fodelau rheoleiddio ar gyfer diogelwch adeiladau. Mewn ymateb i'r cais hwn, bu i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynnull trafodaeth fordron ar 16 Rhagfyr 2022 rhwng arbenigwyr academiaidd ac uwch-swyddogion gwadd o Lywodraeth Cymru, a restrir yn **Atodiad 1**.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif gasgliadau o'r drafodaeth honno gyda thystiolaeth ategol. Nod yr adroddiad hwn yw ategu gwaith Llywodraeth Cymru i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru drwy lywio penderfyniadau ar ddiwygio'r model rheoleiddio a ddefnyddir yn y sector diogelwch adeiladau mewn deddfwriaeth sydd ar ddod.

## Adolygiad o'r pynciau

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ddarparu tystiolaeth ar gyfer dau brif faes:

1. Cymharu effeithiolrwydd rheoleiddwyr sengl ag effeithiolrwydd rhai lluosog trwy drafodaeth ac enghreifftiau;
2. Nodi themâu allweddol ar effeithiolrwydd modelau gorfodi a sancsiynu'n rhyngwladol.

## Y Cefndir

Datganolwyd pwerau rheoleiddio adeiladu yn 2011, gan roi'r pŵer i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r system reoleiddio ar gyfer diogelwch yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddiwygio'r system bresennol, yn unol ag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod 'pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi' (Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae trychineb Tŵr Grenfell wedi amlygu'r angen i wneud gwelliannau i'r system diogelwch adeiladau. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar ddiwygio'r deddfwriaeth a'r diwylliant sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau (Llywodraeth Cymru, 2021b). Tynnodd hyn ar ganfyddiadau Adolygiad Hackitt, yr ymchwiliad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU i reoliadau adeiladu a diogelwch tân yn dilyn Grenfell (Hackitt 2018), ac adroddiad Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru 2019, 'Map Ffordd i Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru' (Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau, 2019).

# Modelau rheoleiddio sengl o gymharu â rhai lluosog

## Y Cefndir

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae diogelwch adeiladau yn cael ei reoleiddio gan awdurdodau lleol a'r gwasanaethau tân ac achub. Nododd papur gwyn Llywodraeth Cymru ddau opsiwn ar gyfer diwygio'r system bresennol:

1. Symud i fodel sengl, integredig sy'n cynnwys naill ai sefydlu rheoleiddiwr adeiladu cenedlaethol newydd neu benodi rheoleiddiwr arweiniol o'r rheoleiddwyr presennol; neu
2. Ymrwymiad i fodel rheoleiddio lluosog, sy'n cynnwys naill ai'n cynnal ac yn cryfhau'r drefn reoleiddio bresennol neu'n sefydlu cydbwyllgor i gydlynu a goruchwyllo'r rheoleiddwyr lluosog dan sylw (Llywodraeth Cymru, 2021b).

Mae'r opsiwn olaf yn debyg i'r argymhelliad yn Adolygiad Hackitt y dylid ffurfio 'awdurdod cymwys ar y cyd', a oedd yn argymhell uno'r rheoleiddwyr presennol i reoli diogelwch adeiladau ar bob cam o gylch oes adeilad (Hackitt, 2018: 6). Mae Tabl 1 yn rhoi mwy o fanylion am y ddau opsiwn.

**Tabl 1: Opsiynau papur gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer modelau rheoleiddio sengl a lluosog**

Rheoleiddiwr sengl	Rheoleiddwyr lluosog
<p><b>Rheoleiddiwr diogelwch adeiladau cenedlaethol newydd</b></p> <p>Gallai hyn ddarparu proses symlach o bosibl, gan ganoli mesurau goruchwyliaeth a gorfodi o fewn un corff. Byddai'n haws i ddeiliaid dyletswydd ac eraill gael mynediad at y dirwedd reoleiddiol a'i deall, a gallai ddarparu annibyniaeth ar awdurdodau presennol. Mae'n bosibl y bydd rheoleiddiwr sengl, newydd yn ei gwneud yn haws i fodloni gofynion gallu</p>	<p><b>Cyfundrefn reoleiddio gydedol</b></p> <p>Yn hytrach na diwygio'r model presennol yn sylweddol, byddai'r opsiwn hwn yn ei gynnal ac yn gwella'r diffygion a nodwyd er mwyn cryfhau'r drefn reoleiddio. Yn ogystal, gallai fod trefniadau cryfach ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn hwyluso dull gweithredu ar y cyd.</p>

a galluedd, ond byddai goblygiadau cost sylweddol iddo.	
<p><b>Un rheoleiddiwr arweiniol</b></p> <p>Byddai hyn yn golygu bod un o'r awdurdodau presennol (yr awdurdod lleol neu'r awdurdod tân ac achub) yn dod yn rheoleiddiwr arweiniol. Byddai ystyriaethau gallu ac arbenigedd, gan nad oes gan y naill opsiwn na'r llall arbenigedd cyffredinol i gwmpasu'r drefn yn unig heb fod angen datblygu a chyflwyno arbenigedd ac adnoddau ychwanegol.</p>	<p><b>Trefniadau cydgysylltu a goruchwyllo</b></p> <p>Mae'r opsiwn hwn yn ailadrodd yr un uchod ond mae hefyd yn sefydlu cydbwyllgor a allai gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau rheoleiddio ac o'r sector (er enghraifft: adeiladwyr/datblygwyr, rheolwyr adeiladau, asiantau rheoli a phreswylwyr). Byddai gan y 'pwyllgor' hwn swyddogaeth gydlynw sy'n monitro'r gyfundrefn reoleiddio ac yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion ac yn cyflawni ei swyddogaeth yn unol ag amcanion y cytunwyd arnynt.</p>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2021b: 31)

Daeth yr arbenigwyr a gymerodd ran yn y drafodaeth bord gron â phrofiad o sawl maes rheoleiddio (er enghraifft, diogelwch amgylcheddol a chynnyrch) yn ogystal â rheoleiddio diogelwch adeiladau, a oedd yn caniatáu adlewyrchiad dyfnach a mwy trylwyr ar yr opsiynau diwygio.

Cyn symud ymlaen i drafod buddiannau a risgiau gwahanol fodelau rheoleiddio, roedd yr arbenigwyr yn cydnabod bod angen y canlynol:

- Sicrhau data sylfaenol cynhwysfawr, gan gynnwys cyfanswm nifer yr adeiladau, nifer yr adeiladau a allai gael eu heffeithio gan newid rheoleiddiol, nifer y bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau gorfodi a gweithgareddau cysylltiedig, ac ystadegau ar arolygiadau, troseddau a welwyd, a chamau gorfodi a gymerwyd;
- Diffinio'r amcanion rheoleiddio'n glir;
- Penderfynu sut i fesur effeithiolrwydd rheoleiddio yn erbyn yr amcanion.

### Swyddogaethau rheoleiddio

Bydd gan y system reoleiddio a ddewisir set o swyddogaethau y mae eu gwaith yn eu cwmpasu. Mae'r papur gwyn yn nodi mai nod allweddol y system reoleiddio yw 'sicrhau diogelwch trigolion ac eraill mewn adeiladau ac o'u cwmpas drwy ddwyn

deiliaid dyletswydd i gyfrif wrth gyflawni eu dyletswyddau' (Llywodraeth Cymru, 2021b: 29). Mae naw swyddogaeth graidd arfaethedig y system reoleiddio wedi'u grwpio'n dri amcan rheoleiddio eang, fel a ganlyn:

### **Goruchwyliaeth: monitro gweithrediad effeithiol y gyfundrefn**

- Archwilio adeiladau;
- Sicrhau cymhwysedd;
- Gosod safonau diogelwch a chyfeiriad polisi.

### **Cydweithio: gweithio gydag eraill i gyflawni amcanion y gyfundrefn**

- Gweithio gydag eraill;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd / addysg
- Atebolrwydd cyhoeddus.

### **Cydymffurfedd: sicrhau y cedwir at ofynion y gyfundrefn**

- Ymdrin â chwynion;
- Ymchwiliadau a gorfodi;
- Ystyriaethau llywodraethu.

Roedd papur gwyn Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r system reoleiddio hefyd ddarparu swyddogaeth gofrestru sy'n manylu ar adeiladau o fewn y drefn.

## **Buddiannau a risgiau sy'n gysylltiedig â modelau rheoleiddio sengl a lluosog**

Nid yw'r modelau rheoleiddio sengl na lluosog yn wrthrychol well na'r llall; felly, mae'r dewis i'w ddewis yn dibynnu ar nodweddion a blaenoriaethau cyd-destunol. Nid yw'r modelau rheoleiddio sengl na lluosog yn wrthrychol well na'r llall; felly, mae'r dewis i'w ddewis yn dibynnu ar nodweddion a blaenoriaethau cyd-destunol. Os yw cydlynu'n flaenoriaeth allweddol, gyda gwahanol grwpiau'n cydweithio i gyflawni'r nod cyffredinol, efallai y byddai un rheoleiddiwr yn fanteisiol. Bydd hyn, fodd bynnag, yn cyflwyno materion newydd nad oeddent yn broblemau sylweddol gyda strwythur rheoleiddiwr lluosog blaenorol, megis anawsterau o ran sicrhau y rhoddir sylw digonol i dasgau hollbwysig. Felly, efallai na fydd treulio amser, arian a'r amhariad cysylltiedig ar gyfer ailstrwythuro yn cynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau (Carrigan, 2017). Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd bod yn ymwybodol o unrhyw wendidau yn y strwythur presennol a gweithredu mesurau i liniaru'r gwendidau hyn o bosibl yn ddull mwy cost-effeithiol a allu arwain at ganlyniadau gwell.



## **Model rheoleiddiwr sengl - buddion**

Gallai symud i reoleiddiwr sengl roi eglurder ynghylch cyfrifoldebau. Gallai ddarparu un pwynt cyswllt i'r cyhoedd, y rhai sy'n dod o dan y rheoliadau, y diwydiant a rhanddeiliaid ehangach eraill.

Sylwyd, fodd bynnag, y gellid cyflawni'r un pwynt cyswllt unigol gyda model rheoleiddiwr lluosog trwy, er enghraifft, sefydlu corff neu grŵp a all gydlynu'r camau gweithredu gan gyrrff rheoleiddio gwahanol, fel y trafodir isod.

## **Model rheoleiddiwr sengl - risgiau**

Mewn egwyddor, mae symud i reoleiddiwr sengl yn cynyddu effeithlonrwydd rheoleiddio, gan fod yr holl agweddau cyfredol ar reoleiddio yn cael eu rheoli gan un endid. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae gwaith rheoleiddio adeiladu yn cwmpasu ystod o sgiliau a phrosesau penodol, a dyna pam yn hanesyddol y mae gwahanol sefydliadau yn ymdrin ag agweddau penodol ar reoleiddio. Felly, mae'n debygol y byddai unrhyw reoleiddiwr sengl newydd yn ailadrodd y gwahaniaethau hynny o fewn ei strwythur ei hun. Felly, er y byddai'n 'reoleiddiwr sengl' mewn egwyddor, yn ymarferol, gallai barhau i fod yn gyfuniad o swyddogaethau rheoleiddio gwahanol neu arbenigedd technegol.

Lle bo hynny'n digwydd, mae'n debygol o barhau'n heriol i aelodau'r cyhoedd ddod o hyd i'r isadran briodol, a byddai eu gallu i wneud hynny yn dibynnu ar effeithlonrwydd y system gyfathrebu.

Mae tystiolaeth o ad-drefnu tebyg yn dangos y gallai hyn greu'r potensial i leoli cenadaethau sy'n cystadlu ac o bosibl hyd yn oed yn gwrthdaro â'i gilydd o fewn un sefydliad. Yn gysylltiedig â hyn, efallai y bydd mwy o ddryswch ymhlith y staff o ran cenhadaeth graidd y sefydliad (Carrigan, 2018). Fel arfer, mae sefydliadau sy'n rheoli tasgau sy'n cystadlu yn gweithio i ddiffinio diben craidd, a all arwain at esgeuluso tasgau a fyddai fel arall yn bwysig. Mae hyn yn codi'r risg y bydd agweddau hanfodol ar y broses reoleiddio yn mynd ar goll neu'n cael eu bychanu (Drucker, 1980). Wrth reoli corff rheoleiddio sylweddol gyda chylch gwaith ehangach, mae'n haws colli cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, a gall swyddogaethau rheoleiddio ddod yn fwy biwrocraidd. Mae Gilad (2015) yn rhoi enghraifft o hyn yn eu harchwiliad o Awdurdod Gwasanaethau Ariannol Prydain (FSA). Dywed Gilad fod asiantaethau rheoleiddio mawr, fel yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol Prydain fel arfer yn gweithredu gydag ystod o nodau a thasgau technegol. Fodd bynnag, gall cyfuno nodau a thasgau lluosog o fewn un corff rheoleiddio achosi amwysedd ynghylch yr hyn y dylid ei flaenoriaethu, a gellir rhoi sylw anghyson i wahanol dasgau. Gall hyn arwain at anwybyddu problemau sylweddol a hyd yn oed fethiant rheoleiddiol (Gilad, 2015).

Mae astudiaethau meintiol ehangach yn dangos bod amwysedd ynghylch nodau blaenoriaeth yn ogystal â'r cyfuniad o wahanol swyddogaethau o fewn corff rheoleiddio yn gysylltiedig â pherfformiad is asiantaethau o'r fath (Chun a Rainey, 2005; Carrigan, 2014). Mae Carrigan yn nodi ymhellach, 'gall asiantaethau gael eu tanseilio gan wrthdaro â thargedau rhaglen a grëir trwy eu cyfrwyo â chenadaethau sy'n cystadlu' (Carrigan, 2018: 671).

Un ateb posibl i'r mater o nodau a thasgau sy'n cystadlu yw cynyddu nifer y staff, a fyddai'n caniatáu galluogi mwy o adroddiadau o ansawdd uwch. Dylid nodi y byddai cynyddu nifer y staff yn achosi problem arall sef yr angen am fwy o gyllid ar gyfer staff.

### **Model rheoleiddiwr lluosog - buddion**

Amlygodd y drafodaeth bord gron y ffaith y byddai cynnal y model rheoleiddiwr lluosog yn osgoi'r angen am ailstrwythuro. Gall costau pontio fod yn ddud, a gall ailstrwythuro sefydliadol fod yn anodd ei reoli, mae'n gymhleth, ac yn aml mae'n creu canlyniadau anfwriadol. Bydd unrhyw ailstrwythuro yn achosi aneffeithlonrwydd mewn rhai camau gweithredu ac y dylid ei wneud pan fydd mwy o fanteision nac o anfanteision.

### **Model rheoleiddiwr lluosog - risgiau**

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yn cynnwys y posibilrwydd o fylchau neu orgyffwrdd parhaus mewn cyfrifoldebau a allai achosi diffyg eglurder. Er mwyn osgoi hyn, byddai'n hanfodol sefydlu rolau ac atebolrwydd clir. Mae posibilrwydd hefyd na fydd buddion rheoleiddwyr yn cyd-fynd, gan arwain at wrthdaro rhyngddynt.

Gall rheoleiddwyr lluosog achosi dyblygu mewn cyfundrefnau archwilio, sy'n gostus i berchnogion adeiladau. Felly, gallai arolygu gormodol ac ailadroddus atal gwaith adeiladu a phrynu adeiladau presennol. Fodd bynnag, nododd yr arbenigwyr hefyd y gall dyblygu fod yn ddefnyddiol weithiau mewn amgylcheddau risg uchel, oherwydd gall leihau'r posibilrwydd bod problem allweddol wedi'i hanwybyddu.

## **Cyflawni'r nodau a lliniaru risgiau ad-drefnu**

Cododd y cwestiwn ynghylch pa swyddogaethau y byddai angen eu canoli i gyflawni nodau'r diwygio a gwella gweithrediad y system bresennol. Nodwyd y swyddogaethau canlynol gan arbenigwyr fel rhai pwysig:

- Darparu un pwynt cyswllt: model a ddisgrifir yn aml fel 'siop un stop' ar gyfer perchnogion a deiliaid, partneriaid diwydiant, perchnogion a datblygwyr adeiladau, a'r cyhoedd yn gyffredinol;

- Cyfrifoldeb am gasglu a choladu data ar adeiladau a chynnal gwaith dadansoddi data i nodi materion posibl;
- Datblygu cofrestr ar gyfer aseswyr cymwys, a nodi a oes digon o allu a chymhwysedd i asesu diogelwch adeiladau yn y system. Byddai'r gofrestr yn darparu trosolwg o'r safonau a'r broses ar gyfer dilysu cymhwyster aseswr;
- Cynnal cofrestr sy'n rhestru adeiladau, pobl gyfrifol, a sefydliadau;
- Sefydlu a chynnal llinellau atebolrwydd a throsolwg clir.

O'i ymestyn, y rheoleiddwyr presennol fyddai'n gyfrifol am safonau, arolygu, rheoli cwynion ac ymchwiliadau, a gweithgareddau gorfodi gyda goruchwyliaeth gan gorff gwerthuso canolog.<sup>1</sup>

Awgrymodd arbenigwyr y gallai 'pwyllgor cydlynu canolog', fod yn ddewis arall i sefydlu rheoleiddiwr sengl neu adael y system aml-reoleiddwyr ar waith. Gallai pwyllgor o'r fath gydlynu gwaith ar draws y sbectwm rheoleiddio adeiladau, gan sicrhau effeithlonrwydd rheoleiddiol gwell yn gyffredinol (gan gynnwys rheoli costau rheoleiddiol) a sicrhau bod bylchau rheoleiddiol a manau dall yn llai tebygol o ddigwydd trwy arferion rheoleiddio cydgysylltiedig. Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno enghreifftiau i ddangos manteision pwyllgor a chyrrff cydlynu.

Mae yna enghreifftiau o wledydd eraill sy'n dilyn dulliau tebyg y gellid eu dysgu oddi wrthynt:

- Mae diwygiadau rheoleiddiol yr Alban ar ôl Grenfell yn debyg i sefydlu corff cydlynu. Yn hytrach na'r model rheoleiddiol arfaethedig a rheoleiddiwr adeiladu, mae canolbwynt canolog ar gyfer adolygu dyluniadau cymhleth gan gymheiriaid (Llywodraeth yr Alban, 2019). Dyma enghraifft o sut y byddai corff cydlynu yn caniatáu i chi gynyddu cymwyseddau ac atebolrwydd, ond heb yr anfanteision sy'n gysylltiedig â gwaith ailstrwythuro rheoleiddiol mawr.
- Mewn perthynas ag atebolrwydd, cyfeiriodd y trafodaethau at y dull gwarant addasrwydd adeiladau y mae Seland Newydd wedi'i fabwysiadu; mae'r dull hwn yn gosod cyfrifoldeb clir ar berchennog yr adeilad i gadarnhau bod y systemau penodedig ar gyfer eu hadeilad wedi'u cynnal a'u cadw a'u gwirio am y 12 mis blaenorol yn unol â'r amserlen gydymffurfio (Perfformiad Adeiladu Llywodraeth Seland Newydd, 2016). Hefyd, awgrymwyd ardystiad canolog trwy orfodaeth gan daleithiau, fel y'i defnyddir mewn deddfwriaeth amgylcheddol yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft (Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Unol Daleithiau, 2022). Rhaid i daleithiau wneud cais a dangos

---

<sup>1</sup> Ni thrafodwyd hyn yn benodol yn y trafodaethau ford gron ond fe'i codwyd trwy gymharu'r hyn a nodwyd fel swyddogaeth ganolog allweddol â'r deg swyddogaeth graidd a nodir yn y papur gwyn.

ardystiad i lywodraeth genedlaethol a chael ardystiad bod y cyfundrefnau sy'n seiliedig ar y dalaith yn ddigonol a rhaid iddynt ddarparu data. Mae archwilio trydydd parti hefyd yn opsiwn os amheuir cymhwysedd yr unigolyn atebol (McAllister, 2012).

## Pwysigrwydd sicrhau gallu digonol

Cyfeiriodd arbenigwyr at y ffaith mai un o'r pethau allweddol a ddysgwyd o drychineb Grenfell yw bod yr asesiad risg tân wedi'i leihau i ddull rhestr wirio ar gyfer asesu. Nid oedd yr asesydd risg yn ddigon cymwys i wybod goblygiadau'r ffactorau a gyfrannodd at y sefyllfa beryglus.

Ni waeth a ddilynir model rheoleiddiwr sengl neu luosog, bydd angen gallu ychwanegol i gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol. Bydd swyddogaethau'r rheoleiddiwr newydd yn gofyn am sgiliau a gallu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn bresennol yn y system bresennol. Enghraifft yma yw Cladding Safety Victoria (Cladding Safety Victoria, 2022). Mae'r rhaglen hon, yn nhalaith Victoria yn Awstralia, yn dod â'r llywodraeth a pherchnogion adeiladau ynghyd i gywiro cynhyrchion cladin ar gyfer waliau allanol nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu arbenigedd ychwanegol ar gladin waliau a allai fynd ar dân i'r system rheoleiddio adeiladau: arbenigedd nad yw ar gael o fewn cynghorau lleol yn aml.

Mae Academiâu Cenedlaethol y Gwyddorau (2018) yn trafod pwysigrwydd sicrhau bod digon o allu i gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol wrth ddewis 'math o ddyluniad rheoleiddiol' fel rheoleiddiwr na all ddatblygu'r gallu gofynnol, 'y mae'n bosibl y gall staff â chymwyseddau soffistigedig o ran dadansoddi risg ac archwilio, sylwi nodweddion math o reoliad... y gall greu baich sylweddol a rhwystr ymarferol i effeithiolrwydd rheoleiddiol' (Academiâu Cenedlaethol y Gwyddorau, 2018: 100). Mae Coglianese (2018) yn adleisio hyn, gan amlygu'r angen am allu a sgiliau digonol o fewn y gweithlu rheoleiddio. Mae'n awgrymu, er y bydd gan endidau a reoleiddir ddealltwriaeth well o'u gweithrediadau eu hunain ac y byddent yn gallu dod o hyd i atebion cost-effeithiol, nid yw eu cymhellion bob amser yn cyd-fynd yn llawn ag ymrwymiad i sicrhau'r canlyniad mwyaf diogel. Felly, mae'n hynod bwysig sicrhau bod gan yr arolygydd sgiliau digonol ar gyfer adolygu cynlluniau rheoli risg ac arolygu endidau a reoleiddir. Mewn achosion lle mae'r endidau a reoleiddir yn cael eu cefnogi ac yn cael gwybod beth i'w wneud gan y rheoleiddiwr, maent yn fwy tebygol o addasu eu hymddygiad (Coglianese, 2018).

Cwestiwn cysylltiedig ond ar wahân i'w ystyried yw sut mae'r drefn reoleiddio newydd yn cyd-fynd â'r amgylchedd polisi ehangach. Mae gan Lywodraeth Cymru fentrau polisi presennol sydd wedi'u cynllunio i annog gwelliannau i ansawdd, effeithlonrwydd ynni a fforddiadwyedd tai yng Nghymru. At hynny, mae cysylltiadau

rhwng tai ac ystod o feysydd polisi eraill, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn bodoli. Mae gwledydd eraill yn ceisio ystyried rheoleiddio diogelwch adeiladu yn gyfannol, er mwyn cyflawni rheoleiddio yn fwy effeithlon ochr yn ochr â gwasanaethau eraill. Er enghraifft, mae cymunedau gorfodi adeiladau yn yr Unol Daleithiau yn cyfuno materion gwasanaethau iechyd, tân a glanweithdra, ochr yn ochr â rhaglenni i wella perfformiad ynni adeiladau. Mae angen i'r gwasanaethau eraill hyn gael mynediad i eiddo a rhyngweithio â phreswylwyr; felly, gallai dulliau cyfannol o reoli adeiladau gyfuno ymweliadau ac arolygiadau o adeiladau â gwasanaethau eraill sy'n ymwneud ag adeiladau y mae eu hangen ar breswylwyr.

Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd defnyddio mesurau gorfodi a sancsiynau, gan amlygu themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r drafodaeth bord gron.

# Gorfodi a sancsiynau

## Thema allweddol 1: Defnyddio gorfodi a sancsiynau i feithrin newid ymddygiad

### Y Cefndir

Barnodd Adolygiad Hackitt fod y system reoleiddio ar gyfer adeiladau uchel iawn a chymhleth yn anaddas i'r diben. Mae'r materion allweddol a nodwyd fel rhai sy'n sail i fethiant y system yn cynnwys y canlynol (Hackitt, 2018: 5):

- Rheoliadau a chanllawiau yn cael eu hanwybyddu, eu camddeall, neu eu camddehongli;
- Prif gymhelliad i wneud pethau mor gyflym ac mor rhad â phosibl gyda'r syniad o ddarparu cartrefi 'o ansawdd' yn cael eu gwthio i'r neilltu;
- Diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, wedi'i waethygu gan ddarnio o fewn y diwydiant, a arweiniodd at ddiffyg atebolrwydd;
- Offer goruchwylio a gorfodi rheoleiddiol annigonol. Yn aml, ni chymerir camau gorfodi pan fo angen a, phan fo angen hynny, mae'r cosbau'n rhy fach neu'n rhy drugarog i fod yn arf ataliol effeithiol.

Cytunodd y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau yn fras fod y diffygion hyn yn berthnasol i Gymru hefyd, a gwnaeth y grŵp argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ddiwygio'r sector diogelwch adeiladau o fewn y cyd-destun hwn (Grŵp Arbenigwyr Diogelwch Adeiladau, 2019).

Mae'r papur gwyn yn nodi mai nod allweddol y rheoleiddiwr yw 'sicrhau diogelwch trigolion ac eraill mewn adeiladau ac o'u cwmpas drwy ddwyn deiliaid dyletswydd i gyfrif wrth gyflawni eu dyletswyddau' (Llywodraeth Cymru, 2021b: 29). Drwy ddiwygiadau rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyflawni'r canlynol:

- Eglurder ac ymwybyddiaeth well o'r drefn a rheoliadau diogelwch adeiladau;
- Systemau gwell ar gyfer dal yr unigolion perthnasol i gyfrif, gyda llinellau atebolrwydd clir;
- Cyfundrefn gryfach sy'n hwyluso gweithio rhwng awdurdodau, er enghraifft yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau tân ac achub;
- Newid diwylliannol ac ymddygiadol.

Rhagwelir y bydd y nodau hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy swyddogaethau craidd y system reoleiddio newydd.

Trafododd arbenigwyr faterion pwysig i'w hystyried wrth ddiwygio system reoleiddio.

### **Bod yn glir ynghylch atebolrwydd**

Un o'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r diwygiad arfaethedig yw rheoli rhwymedigaethau ar draws y cyfnodau dylunio ac adeiladu, a'r cyfnod meddiannu. Er enghraifft, os nodir problemau gydag adeilad â phobl ynddynt sy'n deillio o ddyluniad neu adeiladwaith yr adeilad hwnnw, pwy sy'n atebol? Mae hwn yn gwestiwn y mae angen ei ateb ar y cyd gan y timau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y canlynol: i) y cyfnod meddiannu; a ii) y cyfnod dylunio ac adeiladu.

Mater arall a drafodwyd ag arbenigwyr yn dilyn y drafodaeth ford gron yw'r atebolrwydd a ddaw i'r rhai sy'n gyfrifol am asesu cydymffurfedd â rheoliadau adeiladu. Mae sefydlu cyfrifoldeb yn allweddol, er enghraifft, ai arolygydd y llywodraeth neu ei sefydliad ehangach sy'n gyfrifol am fethu diffyg yn y cynllun. Gall math hwn o senario gael effaith yn ystod y cyfnod meddiannu, oherwydd gall ymgeiswyr ddefnyddio'r broses trwydded adeiladu fel ffordd gymharol rad o wirio ansawdd yr adeilad a/neu erlyn y rhai sy'n gyfrifol (mewn rhai achosion, arolygydd y llywodraeth neu eu sefydliad) pan mae pethau'n mynd o chwith. Os bydd rhywun arall yn atebol, yna mae angen ystyried y cymhelliant i arolygydd y llywodraeth wneud y gwaith hwn.

Felly, mae angen strwythurau atebolrwydd clir. Mae'r cyfnodau dylunio a'r adeiladu, a'r cyfnodau meddiannu fel arfer yn cynnwys gweithredwyr gwahanol ac yn aml maent yn cael eu rheoli o dan ddeddfwriaeth wahanol. Gall cymhlethdodau godi pan nad yw perchennog terfynol yr adeilad yn ymwneud â gwneud penderfyniadau yn ystod y camau dylunio neu adeiladu. Mae'n hanfodol bod llwybrau gwybodaeth clir yn bodoli.

### **Addysgu yn hytrach na sancsiynu preswylwyr**

Mae cynnwys preswylwyr yn y gwaith o reoleiddio diogelwch adeiladau yn gymhleth. Mae'n debygol y bydd preswylwyr o fewn y gyfundrefn yn atebol am ganiatáu mynediad i'r eiddo y maent yn byw ynddo i'w archwilio ac i gynnal safon diogelwch tân o fewn yr eiddo. Rhybuddiodd yr arbenigwyr yn erbyn gosod sancsiynau ar breswylwyr, oherwydd y gallai gweithredu osod baich gormodol ar breswylwyr, y gallai rhai ohonynt ddod o gefndiroedd difreintiedig. Roedd arweiniad clir gan yr arbenigwyr i ganolbwyntio unrhyw gamau gorfodi a sancsiynu ar yr Unigolyn Atebol, a ddylai wedyn weithio gyda'r preswylwyr i'w haddysgu ar adeiladu a diogelwch tân. Felly, gall unigolyn atebol fod yn gyfrifol am gynhyrchu cynllun i ryngweithio â phreswylwyr ynghylch cyfrifoldebau'r preswylwyr a'r camau gweithredu y dylent fod yn eu cymryd i gynnal diogelwch tân ac adeiladau. Dylai'r cynllun godi ymwybyddiaeth hefyd o arferion tân anniogel cyffredin.

## Canfyddiadau o sancsiynau

Amlygodd arbenigwyr fod canfyddiadau am sancsiynau yn effeithio ar ymddygiad cydymffurfedd. Mae hyn yn cynnwys y tebygolrwydd canfyddedig o gael eich dal a'ch sancsiynu wedi hynny a difrifoldeb canfyddedig y sancsiwn. Gallai'r ofn o gael eu sancsiynu ysgogi pobl i gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Felly, gall llywodraethau benderfynu rhoi cyhoeddusrwydd helaeth i achosion o sancsiynau difrifol, y cyfeirir atynt yn aml fel 'enwi a chywilyddio', fel bod yr achos yn gosod cysail o fewn cymuned.

Un maes a ddefnyddiwyd i roi cyhoeddusrwydd i dorri rheolau yng nghyd-destun yr Unol Daleithiau yw rheoleiddio ariannol, gyda'r Swyddfa Diogelu Ariannol Cwsmeriaid wedi creu cronfa ddata ar gyfer cwynion gan gwsmeriaid sydd ar gael i'r cyhoedd ei chyrru (Swyddfa Diogelu Ariannol Cwsmeriaid, 2022).

Awgrymodd arbenigwyr y gellid sicrhau enillion hawdd yng Nghymru drwy wella data ar adeiladau. Er enghraifft, gall sefydlu system gofrestru genedlaethol neu anfon llythyrau newid ymddygiad. Mae Adran Adeiladau, Adran Dân ac Adran yr Heddlu Dinas Efrog Newydd yn bwydo i mewn i gronfa ddata gyffredin sy'n helpu i nodi deiliadaeth sy'n agored i risg gan ddefnyddio data amrywiol, gan gynnwys archwiliadau adeiladau a thân, galwadau i'r heddlu a gwiriadau llesiant (Heaton, 2015).

## Safoni cydymffurfedd

Defnyddiwyd twmpathau cyflymder yn hytrach na dirwyon drwy ddefnyddio gynnu cyflymder achlysurol fel enghraifft o sut y gall seilwaith parhaol fod yn ffordd fwy effeithlon o greu newid ymddygiad (Coglianese, 2023). Mae'r enghraifft hon, er ei bod o faes arall, yn dangos sut y gallai cydymffurfedd sydd wedi'i integreiddio i'r system adeiladu fod yn fwy effeithiol na rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i arolygydd fynd drwy restr wirio a rhoi dirwyon.

Cynigiwyd yr enghreifftiau canlynol fel 'pwyntiau trosoledd' posibl a allai gyflawni rheoleiddio ataliol mewn rhai cyd-destunau, er y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i gymhwysedd i'r cyd-destun Cymreig:

- Oherwydd bod landlordiaid yn aml yn mynd â phreswylwyr i'r llys er mwyn eu troi allan neu geisio adennill rhent heb ei dalu, gellid gwneud eu hamddiffyniadau cyfreithiol yn ddibynnol ar eu cydymffurfedd â rheoliadau diogelwch adeiladu.



- Trafodwyd y potensial o weithio gyda chwmnïau yswiriant i ymgorffori diogelwch adeiladau mewn asesiadau yswiriant; gan gynnwys sefyllfa lle gallai perchnogion adeiladau dalu premiwm neu gollu eu hyswiriant os nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau. Enghraifft arall a gynigiwyd oedd cysylltu darparwyr morgeisi ag ardystiad perfformiad ynni, lle mae effeithlonrwydd ynni pob adeilad yn weladwy i ddarpar berchnogion a phreswylwyr. Fodd bynnag, cydnabuwyd anfanteision y dull hwn, gan gynnwys yr effaith ar werthu a phrynu eiddo. Efallai hefyd y bydd cyfyngiadau ar y math hwn o gamau gweithredu yng Nghymru sy'n ymwneud â'r cyd-destun datganoledig, megis maint y farchnad yswiriant.
- Gellid defnyddio proses ardystio hefyd i nodi materion diogelwch adeiladau. Byddai hyn yn ysgogi pwysau'r farchnad ar y perchennog ar adeg gwerthu neu osod yr eiddo, gan annog gwerthwyr a landlordiaid i gynnal lefel benodol o ddiogelwch ar gyfer yr adeilad os ydynt am sicrhau pris da yn y farchnad. Cyflwynodd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 Llywodraeth y DU Dystysgrif Asesu Adeiladau, sy'n rhoi sicrwydd ychwanegol ar ddiogelwch adeiladau i breswylwyr. Fodd bynnag, gallai hyn gael effaith negyddol ar lesddeiliaid pe byddai eu hadeilad yn colli ei Dystysgrif Asesu Adeiladau.
- Awgrymodd arbenigwyr y dylid ystyried mesurau 'meddalach', megis addysgu preswylwyr (gan gynnwys mwy o ddefnydd o ymarferion tân) a'r sector cyhoeddus ehangach. Er enghraifft, gallai staff gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymweld â chartrefi dynnu sylw pobl at risgiau tân posibl yn eu cartrefi.

### **Pwysigrwydd targedu a defnyddio technoleg**

Mae'n rhaid i reoleiddwyr fod yn strategol er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf, felly mae nodi 'risgiau hysbys' yn bwysig. Ymhlith y materion cyffredin y mae cyfundrefnau rheoli diogelwch adeiladau yn eu hwynebu mae sicrhau bod adeiladau'n cynnwys offer diogelwch sylfaenol penodol, bod mesurau atal llifogydd yn bresennol, a bod diffoddwyr tân yn cael eu disodli cyn eu dyddiadau dod i ben. Mae angen ystyried y materion hyn wrth ddefnyddio adnoddau rheoleiddio yn strategol. Argymhellodd arbenigwyr y dylid archwilio'r defnydd o dechnegau modelu ystadegol i nodi lle mae'r risgiau cyffredin hyn yn debygol o ddigwydd. Mae amrywiaeth o dulliau targedu (Coglianese, 2022).

Mae potensial hefyd i ddefnyddio technegau gwyddor data eraill, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial (AI). Gellir defnyddio technegau o'r fath i nodi risgiau posibl ac maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn amrywiaeth o feysydd rheoleiddio ar gyfer cydymffurfedd (Coglianese, 2022). Mae Dinas Efrog Newydd, er enghraifft, wedi bod yn nodi risgiau posibl gydag adeiladau diolch i AI ac offer dysgu peiranyddol sy'n pennu lle y dylai arolygwyr adeiladau ymweld (Coglianese a Lehr, 2017). Mae'r enghraifft hon yn ymdrech ar y cyd rhwng yr Adran Dân, yr Adran

Adeiladau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cysylltu yn ôl â phwyntiau cynharach am ddatblygu partneriaethau i gyflawni nod rheoleiddio. Dangosodd un astudiaeth y gallai Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Unol Daleithiau gynyddu adnabyddiaeth o droseddau diogelwch 600% trwy ddibynnu ar algorithm dysgu peiranyddol i nodi pa gyfleusterau i'w targedu (Hino a Brooks, 2018). Felly, mae sawl ffordd o fanteisio ar AI (Coglianese a Lai, 2022a, a Coglianese a Lai, 2022b).

Cyfeiriodd arbenigwyr at y ffaith bod llawer o dechnoleg monitro adeiladau y gellid ei rhoi ar waith, a chyfeiriwyd hefyd at dechnoleg synhwyro fel ffordd ddefnyddiol o sicrhau cydymffurfedd (Smarter Technologies, 2022, a Giles, 2022).

Fodd bynnag, mae yna amgylchiadau a allai fod yn rhwystr i ddefnyddio technolegau newydd. Er enghraifft, mae'r modelau ystadegol i gyd yn dibynnu ar wybodaeth gywir a chyfredol. Os nad oes cofrestr asedau a gedwir yn gywir yn bodoli, yna gallai defnyddio dadansoddiadau data a gwyddor data wneud mwy o ddrwg na lles. Felly, pwysleisiwyd yr angen am ddata cadarn eto gan arbenigwyr.

## Thema allweddol 2: Ariannu modelau gorfodi a sancsiynau

### Ariannu modelau gorfodi drwy ffioedd

Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd cyfle i roi sylw manwl iawn i'r pwnc hwn yn y drafodaeth. Fodd bynnag, mae rhai cyfeiriadau a rennir gan yr arbenigwyr yn amlygu sut y gellir strwythuro rheoleiddwyr i ariannu eu gweithrediadau o leiaf yn rhannol trwy ffioedd. Ar lefel genedlaethol, mae Seland Newydd, er enghraifft, yn casglu ardoll adeiladu ar yr holl waith a ganiateir dros drothwy (Llywodraeth Seland Newydd, 2022). Mae'r cronfeydd hyn yn cefnogi buddsoddiad yn y sector adeiladu a'i ddatblygu, gan gynnwys y canlynol:

- Polisi, rheolau a chanllawiau technegol, cyngor ar bolisi gweithredol a dylunio gwasanaethau;
- Gwybodaeth ac addysg;
- Darparu gwasanaeth (cydymffurfedd a gorfodi);
- Monitro ac adrodd.

Yn yr Unol Daleithiau, mae'r rhan fwyaf o awdurdodaethau'n casglu ffioedd ar gyfer gwahanol agweddau gwaith, gan gynnwys cael trwydded, cymeradwyo cynlluniau, ymweld â safleoedd yn ystod y gwaith adeiladu, a gwaith cysylltiedig arall. Mae lefel y ffioedd yn amrywio yn ôl awdurdodaeth, a gall y rhestr o drwyddedau unigol a

ffioedd cysylltiedig ar gyfer gwaith adeiladu fod yn hirfaith. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau, sy'n casglu ffioedd ar gyfer adolygiadau cyffuriau; a'r Gronfa Ffederal, sy'n codi tâl am wasanaethau i fanciau, fel clirio sieciau a throsglwyddiadau arian (Zaring, 2012). Mae rhai sylwebwyr yn dadlau bod y trefniadau hyn yn creu gwrthdaro ac yn achosi i reoleiddwyr gael eu dal gan eu hendidau a reoleiddir. Os ydynt yn ddibynnol yn ariannol ar yr endidau y maent yn eu goruchwyllo, efallai y byddant yn llai parod i sancsiynu diffyg cydymffurfedd.

Mae hefyd yn bwysig ystyried canfyddiadau'r cyhoedd. Os defnyddir dirwyon am dorri rheolau adeiladu i ariannu'r rheoleiddiwr yn rhannol, gall hyn arwain at y rheoleiddiwr yn dod o hyd i achosion o dorri rheolau i godi arian, hyd yn oed os yw'r adeilad yn cydymffurfio. O ystyried y posibilrwydd hwn, yn hytrach na bod arolygwyr yn derbyn arian yn uniongyrchol o achosion o dorri rheolau, gallent dderbyn arian o'r arolygiad y telir amdano gan yr endid a reoleiddir. Byddai'r dull hwn yn lleihau'r cymhelliad i chwilio am achosion o dorri rheolau.

Awgrymodd yr arbenigwyr fod ymdrechion gorfodi a sicrhau cydymffurfedd effeithiol yn galw am bersonél ac adnoddau digonol ar gyfer goruchwyllo (Metzenbaum a Vasisht, 2015). Mae'r awduron yn nodi'r canlynol:

**'Gallai methiant i sicrhau a defnyddio adnoddau'n effeithiol arwain at gynnydd sylweddol o risg, problemau gyda morâl asiantaethau, gyda rhai yn y gweithlu'n teimlo eu bod yn cael eu gorweithio a'u gorlethu, tra bod eraill yn trin y diffyg adnoddau fel esgus... Mae pwysigrwydd asiantaethau rheoleiddio i allu cyflogi a chadw pobl dalentog yn hanfodol i hynny.'** (Metzenbaum a Vasisht, 2015: 9)

Hefyd, nododd arbenigwyr y gall yr union ffurf sefydliadol y mae rheoleiddiwr yn ei fabwysiadu fod yn llai hanfodol na sicrhau bod gan y rheoleiddiwr adnoddau digonol ar gyfer monitro, casglu a dadansoddi data, datrys problemau, a, phan fo angen, sancsiynu camau gweithredu. Roedd y gallu sefydliadol i gynnal 'gwyliadwriaeth reoleiddiol gyson' yn bwysig (Coglianese, 2019).

### **Cynyddu dirwyon am fethiant rheoleiddio neu ddiffyg cydymffurfedd**

O ran sancsiynau am ddiffyg cydymffurfedd, mae llawer o wledydd yn defnyddio cyfres o gamau ychwanegol, gyda lefelau cynyddol o ddirwyon am fethu â chywiro'r broblem, sydd wedyn yn symud drwy'r system gyfreithiol ac yn arwain at y potensial ar gyfer camau cyfreithiol yn erbyn perchennog yr eiddo.

Yn Singapore, er enghraifft, gallai methiant i gywiro perygl tân arwain at ddirwy nad yw'n fwy na S\$10,000 (tua £6,000) ac, yn achos trosedd sy'n parhau, gall arwain at ddirwy bellach nad yw'n fwy na S\$1,000 (tua £600) am bob diwrnod neu ran o

ddiwrnod pan fydd y drosedd yn parhau ar ôl derbyn collfarn; neu pan fo'r drosedd yn ymwneud â methiant i gydymffurfio â gorchymyn cau, gall arwain at ddirwy nad yw'n fwy na S\$100,000 (tua £60,000) neu gyfnod o garchar nad yw'n hwy na 12 mis neu'r ddau (Hamzah, 2022).

Yn ninas San Diego, California yn yr Unol Daleithiau, os bydd adroddiad arolygu yn datgelu achosion o dorri'r cod, bydd staff yn pennu'r mesur unioni priodol (Dinas San Diego). Gall hyn gynnwys cyhoeddi dyfyniad neu hysbysiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r unigolyn sy'n gyfrifol am drosedd yn cael cyfle i gydymffurfio'n wirfoddol a chywiro'r sefyllfa. Unwaith y bydd y terfyn amser yn yr hysbysiad wedi dod i ben, gall y perchennog neu'r unigolyn cyfrifol fod yn destun un neu fwy o'r camau gweithredu canlynol:

- Diddymiad: Gall y Ddinas roi gorchymyn i drydydd parti ddymchwel, diogelu neu gael gwared ar sbwriel a malurion. Bydd y Ddinas yn adennill y costau;
- Cosbau sifil: Gellir ei asesu hyd at uchafswm dyddiol o \$10,000 a hyd at gyfanswm uchafswm o \$400,000;
- Rhwymedïau barnwrol: Gall atwrnai'r Ddinas gyflwyno achosion troseddol neu sifil yn erbyn y parti neu'r partiön cyfrifol.

### Thema allweddol 3: Y dulliau mwyaf a lleiaf effeithiol o orfodi a sancsiynau

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chafodd yr eitem hon sylw gan y drafodaeth, ac oherwydd diffyg tystiolaeth empirig o asesu effeithiolrwydd gwahanol ddulliau, mae'n anodd cyflwyno dadansoddiad cryno. Mae ymchwil ehangach yn cefnogi ystod o strategaethau gorfodi rheoleiddiol, fel y'u crynhoir gan Gunningham (2017: 4):

- Cyngor a pherswâd;
- Ataliaeth a rheoleiddio ymatebol;
- Rheoleiddio ar sail risg;
- Rheoleiddio craff;
- Metareoleiddio;
- Strategaethau meini prawf.

Yr ystyriaeth bwysicaf, fel y noda Gunningham (2017: 11), yw cydnabod 'cryfderau a gwendidau gwahanol strategaethau ymyrryd' a cheisio canfod y 'cydweddiad' rhwng strategaeth benodol a nodweddiad yr her reoleiddiol'. Mae arddull gorfodi yn faes arall i'w ystyried. Mae rheoleiddio ymatebol, er enghraifft, yn cyfeirio at ddull gorfodi sy'n ymateb i weithredoedd yr endid a reoleiddir. Os yw'r endid a reoleiddir yn

gweithredu'n ddiwyll, felly hefyd y mae'r rheoleiddiwr. Fodd bynnag, os nad yw'r endid a reoleiddir yn cydweithredu, mae'r rheoleiddiwr yn dibynnu ar amrywiaeth o strategaethau atal i annog cydymffurfedd. Mae'r strategaethau hyn yn raddedig o ran eu natur, ac yn cynyddu ar sail ymddygiad yr endid a reoleiddir. Mae llawer o opsiynau ar gael i reoleiddwyr wrth ddewis arddull reoleiddio, gyda nodweddion penodol yr amgylchedd rheoleiddio yn aml yn pennu'r dewis. Mae Carrigan a Harrington (2015) yn crynhoi dulliau gwahanol o orfodi, gan roi trosolwg o reoleiddio ymatebol a phenderfyniadau y mae angen i'r rheoleiddiwr eu gwneud o ran sut maent yn rhyngweithio ag endidau a reoleiddir (Carrigan a Harrington, 2015: iv-v):

- Gall rheoleiddwyr sydd ag adnoddau gorfodi cyfyngedig ddefnyddio **targedu**. Mae hyn yn canolbwyntio ymdrechion gorfodi ar gwmnïau â chydymffurfedd wael drwy roi dirwyon mwy ac ymgysylltu'n amlach ag arolygiadau.
- Gellir defnyddio **mesurau ataliaeth** i atal achosion o dorri rheoliadau trwy fygythiad o sancsiwn. Bydd gan y math o ataliaeth a ddewisir yn creu goblygiadau ar gyfer ei ddull gorfodi. Mae ymagwedd ataliaeth gyffredinol yn gweld y rheoleiddiwr yn defnyddio bygythiadau neu gamau gweithredu eang yn erbyn endid a reoleiddir i ddarbwylllo eraill rhag diffyg cydymffurfedd; nod atal optimaidd yw atal toriadau aneffeithlon yn unig; ac mae atal absoliwt yn ceisio atal pob math o dorri rheolau.
- Yn yr un modd, mae **gorfodi cyfreithlon** yn ddull sy'n seiliedig ar ataliaeth sy'n dibynnu ar gymhwyso hysbysiadau, dirwyon, a dulliau eraill yn llym, yn seiliedig ar reolau, i gosbi achosion o dorri rheolau ac atal unrhyw doriadau yn y dyfodol.
- Mae **gorfodi lleetyl** yn ceisio sicrhau cydymffurfedd ac yn wahanol i'r dulliau sy'n seiliedig ar atal gan fod rheoleiddwyr yn cynghori ac yn cydweithredu ag endidau a reoleiddir mewn modd anffurfiol trwy addysg, negodi, cydymdeimlad a pherswâd.
- Mae **gorfodi ymatebol** yn golygu defnyddio strategaeth 'dant am ddant', lle mae arolygwyr yn cydweithredu pan fydd cwmnïau'n gwneud hynny ond yn gosod sancsiynau mewn modd cynyddol pan nad ydynt yn cydweithredu ac yn torri rheolau rheoleiddio.

Mae lefel y llymder y mae endidau a reoleiddir yn ei hwynebu yn cael ei phennu nid yn unig gan y gofynion rheoleiddiol ond hefyd gan y ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. Nid oes angen i lefel y llymder fod yn sefydlog; gall newid dros amser i adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol y mae problemau rheoleiddio yn dod i'r amlwg. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu tystiolaeth empirig ar strategaethau atal cyffredinol, megis targedu, a all fod yn ddull defnyddiol i gorff rheoleiddio ei ddefnyddio os oes ganddo adnoddau cyfyngedig (Carrigan a Harrington, 2015). Drwy dargedu, mae endidau a reoleiddir yn cael eu rhannu'n ddau grŵp: y rhai sy'n cymryd

cydymffurfedd o ddifrif a'r rhai nad ydynt yn ystyried bod cydymffurfedd yn bwysig. Wrth wneud hynny, 'gall rheoleiddwyr ddefnyddio eu hadnoddau prin yn fwy effeithlon i leihau achosion o ddiffyg cydymffurfedd trwy ganolbwyntio eu hymdrechion gorfodi ar y grŵp sy'n llai tebygol o gydymffurfio' (Carrigan a Harrington, 2015: 36).

Mae llawer o'r llenyddiaeth ehangach yn ymwneud ag adeiladau newydd ac adeiladau sy'n cael eu hadeiladu, ond prin y rhoddir sylw i adeiladau sy'n bodoli eisoes ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio. O ran adeiladau sy'n bodoli eisoes, mae'n ymddangos bod y set o ddulliau gorfodi a sancsiynau sydd ar gael i'r awdurdodau adeiladu yn gyfyngedig. Er enghraifft, yn Awstralia, Canada a Seland Newydd, gall awdurdod adeiladu roi dirwy i berchennog adeilad, neu endid corfforaethol, neu fynd â hwy i'r llys. Yn yr Iseldiroedd, gall awdurdod adeiladu rhoi dirwy i berchennog ac, mewn rhai amgylchiadau, cau adeilad neu hyd yn oed gymryd rheolaeth o'r adeilad i unioni materion (ar draul perchennog yr adeilad). Mewn cyferbyniad, mae gan awdurdodau adeiladu gyfres ehangach o ddulliau gorfodi ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau sy'n cael eu hadeiladu. Er enghraifft, gallant wrthod rhoi caniatâd cynllunio neu drwydded deiliadaeth; gallant gyhoeddi terfyn amser ar gyfer datrys mater; neu gallant atal y gwaith adeiladu.

Yn yr Unol Daleithiau, y dull mwyaf cyffredin yw'r model 'atal', sy'n atal yr achosion o dorri rheolau iechyd a diogelwch trwy sancsiynau cynyddol, fel y disgrifiwyd. Fodd bynnag, mae system o'r fath yn wynebu heriau pan fo adnoddau a phwerau i archwilio adeiladau yn gyfyngedig. Mae'r dull hwn, yn ymarferol, yn aml yn dibynnu ar rywun yn gwneud cwyn i ddod ag eiddo i sylw'r awdurdodau (Weinberg, 2021).

Mae cysyniad o'r enw 'gorfodi cod strategol' wedi'i weithredu'n gynyddol (Canolfan Cynydd Cymunedol, dim dyddiad). Nod gorfodi'r cod strategol yw sicrhau'r gydymffurfedd fwyaf posibl tra'n lleihau ymyrraeth gan lywodraeth leol, gan fanteisio ar ddata a mewnbwn cymunedol i wneud y gorau o adnoddau cyfyngedig. Mae'n seiliedig ar y tair egwyddor sylfaenol ganlynol:

1. Mae **gorfodi cod teg** yn cydnabod gwahaniaethau mewn amgylchiadau ac yn darparu'r cymorth a'r diogelwch angenrheidiol i berchnogion eiddo. Mae gorfodi cod teg yn ymateb i galedi unigol tra'n dal i weithio i wella cyflwr eiddo.
2. Mae **gorfodi cod effeithlon** yn sicrhau cydymffurfedd yn yr amser byrraf ac am y gost isaf i'r cyhoedd.
3. Mae **gorfodi cod effeithiol** yn arwain at eiddo gwell sy'n bodloni safonau lleol. Gall perchnogion eiddo gydymffurfio'n wirfoddol, neu gall llywodraethau lleol gymryd camau i leihau'r niwsans a naill ai adennill costau neu orfodi trosglwyddo'r eiddo problematig i berchennog cyfrifol newydd.

Mae gorfodi cod strategol yn gofyn am chwe elfen rhaglen hanfodol: systemau gwybodaeth a data am eiddo tirol; arolygu ac ymchwilio; rheoliadau a thrwyddedu; camau gorfodi a chydymffurfio; detholiad o atebion; a mesuriadau a gwerthuso perfformiad.

## Casgliad

Darparodd yr arbenigwyr dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar ddau brif faes: i) cymharu effeithiolrwydd rheoleiddwyr sengl o gymharu â rhai lluosog; a ii) nodi themâu allweddol ar effeithiolrwydd modelau gorfodi a sancsiynu'n rhyngwladol.

### **Model rheoleiddio sengl o gymharu â rhai lluosog**

Trwy gymharu effeithiolrwydd rheoleiddwyr sengl o gymharu â rhai lluosog, daeth sawl pwynt allweddol i'r amlwg. Er nad yw model rheoleiddio sengl na lluosog o reidrwydd yn well, awgrymwyd y byddai sefydlu pwyllgor cyffredinol yn gweithredu fel un pwynt cyswllt yn gwella amlygrwydd a pha mor hawdd yw ymgysylltu â'r Unigolyn Atebol. Bydd eglurder ynghylch atebolrwydd hefyd yn bwysig wrth ddiwygio'r model rheoleiddio. Er enghraifft, eglurder ynghylch rôl yr Unigolyn Atebol wrth reoleiddio, megis ymgysylltu â phreswylwyr, ond hefyd y sancsiynau y gallai'r Unigolyn Atebol eu hwynebu os na fyddant yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

Gellir dadlau mai'r hyn sy'n bwysicach na ffurf sefydliadol y rheoleiddiwr yw sicrhau bod ganddo adnoddau digonol ar gyfer casglu a dadansoddi data, monitro, datrys problemau a, phan fo angen, sancsiynu. Bydd swyddogaethau'r system rheoleiddiwr newydd yn gofyn am sgiliau a gallu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn bresennol yn y system bresennol. Mae'n allweddol bod staff wedi'u cymhwysu i gynnal dadansoddiad risg soffistigedig a'u bod yn gymwys wrth archwilio fel y gallant gynghori endidau a reoleiddir yn effeithiol ar sut i addasu ymddygiad yr endid a reoleiddir.

Gallai defnyddio system gofrestru, ar lefel genedlaethol o bosibl, ei gwneud yn haws i reoleiddiwr wrth benderfynu pa adeiladau sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd a hefyd wrth dargedu'r Unigolion Atebol gyda mesurau gorfodi a sancsiynau pan fo angen. Fodd bynnag, mae angen sefydlu seilwaith data cadarn i ganiatáu dealltwriaeth o

nifer yr adeiladau o fewn y cwmpas ledled Cymru. Byddai sefydlu system gofrestru genedlaethol yn gwella mynediad at ddata ar adeiladau a gallai fod yn ffordd o atal oherwydd bod yr Unigolyn Atebol yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn cael eu holrhain ar gofrestr. Ochr yn ochr â'r system gofrestru, tynnodd arbenigwyr sylw at fanteision ardystio adeiladau, sy'n debyg i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 Llywodraeth y DU. Byddai'r ardystiad hwn yn gofyn am ddata ar bob adeilad o fewn y cwmpas. Fodd bynnag, mae rhai risgiau posibl hefyd i sut y gellir defnyddio unrhyw system ardystio yn ymarferol, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull posibl hwn yn llawn cyn penderfynu a ddylid ei mabwysiadu.

## **Dulliau gorfodi a sancsiynau**

Nododd arbenigwyr mai dim ond un rhan o'r 'pecyn cymorth' sydd ei hangen i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd â rheoliadau diogelwch adeiladau yng Nghymru yw gorfodi a sancsiynau. Dylai'r system reoleiddio newydd ymgysylltu ac addysgu ASau a phreswylwyr.

Roedd trafodaethau ar effeithiolrwydd gorfodi a sancsiynu ar gyfer newid ymddygiad yn canolbwyntio ar addysgu preswylwyr yn hytrach na'u sancsiynu. Byddai hyn yn dod o dan gyfrifoldeb yr Unigolyn Atebol i gynhyrchu cynllun ymgysylltu â phreswylwyr, a ddylai nodi'n glir y camau gweithredu y mae preswylwyr yn gyfrifol amdanynt. Drwy gysylltu diogelwch adeiladau â meysydd eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol, mae'r potensial i sicrhau bod addysg yn cael ei darparu trwy sianeli ychwanegol. Mae canfyddiadau am sancsiynau, gan gynnwys y tebygolrwydd tybiedig o gael eu sancsiynu, yn effeithio ar ymddygiad cydymffurfio y gallai'r ofn o gael eu sancsiynu ysgogi pobl i gydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Awgrymwyd modelau atal cyffredinol, megis targedu, ac 'enwi a chywilyddio', fel dull priodol o orfodi pan fo adnoddau a gallu rheoleiddwyr yn gyfyngedig. Mae hyn yn sicrhau bod yr endidau a reoleiddir, nad ydynt yn cydymffurfio, yn cael eu targedu a'u sancsiynu wrth arbed adnoddau. Byddai angen seilwaith data cadarn er mwyn i hyn fod yn effeithiol. O fewn y llenyddiaeth ehangach, mae diffyg tystiolaeth empirig sy'n cyfeirio at effeithiolrwydd gorfodi a sancsiynau ar gyfer adeiladau presennol. I grynhoi, nid oes un set o gamau gorfodi a sancsiynau y dylid eu defnyddio, ond yn hytrach bydd y dewis ac effeithiolrwydd dilynol y mesurau yn dibynnu ar yr amgylchedd y cânt eu cymhwyso ynddo.



# Cyfeirnodau

Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau. (2019). **Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru.** Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o <https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-i-wella-diogelwch-adeiladau-preswyl-uchel>

Carrigan, C. (2014). **Isolated Failures or Widespread Dysfunction? Unpacking the Effects of Multiple Mandates on Regulatory Behaviour.** Paper presented at the MidWest Political Science Association annual conference. Chicago.

Carrigan, C. (2018). **Unpacking the Effects of Competing Mandates on Agency Performance.** Public Administration Review. 78: 669-683.

Carrigan, C. a Harrington, E. (2015). **Choices in Regulatory Program Design and Enforcement.** Penn Program on Regulation. Cyrchwyd o <https://www.law.upenn.edu/live/files/4706-carriganharrington-ppr-researchpaper062015pdf>

Center for Community Progress (dim dyddiad). **Strategic Code Enforcement.** Cyrchwyd o <https://communityprogress.org/resources/strategic-code-enforcement/>

Chun, Y., H. a Rainey, H., G. (2005). **Goal Ambiguity and Organizational Performance in US Federal Agencies.** Journal of Public Administration Research and Theory. 15, 4: 529-557.

Cladding Safety Victoria. (2022). **Cladding Safety.** Cyrchwyd o <https://www.vic.gov.au/about-cladding-safety-victoria>

Coglianesse, C. (2018). **Listening, Learning, Leading: A Framework for Regulatory Excellence.** Penn Program on Regulation. Cyrchwyd o: [https://kleinmanenergy.upenn.edu/wp-content/uploads/2020/08/Listening-Learning-Leading\\_Coglianesse-1.pdf](https://kleinmanenergy.upenn.edu/wp-content/uploads/2020/08/Listening-Learning-Leading_Coglianesse-1.pdf)

Coglianesse, C. (2019). **Regulatory Vigilance in a Changing World.** The Regulatory Review. (25 Chwefror 2019). Cyrchwyd o <https://www.theregreview.org/2019/02/25/coglianesse-innovation-regulatory-vigilance/>

Coglianesse, C. (2022). **Building Better Compliance**. Texas Law Review Online. 100: 192-214.

Coglianesse, C. (2023). **Step Aside Chester Bowles**. Yale Journal on Regulation Notice and Comment (9 Ionawr 2023). Cyrchwyd o <https://www.yalejreg.com/nc/symposium-giles-next-generation-compliance-00/>

Coglianesse, C. a Lai, A. (2022a). **Assessing Automated Administration**. U of Penn Law School, Public Law Research Paper No.22-28, in Bullock ac eraill. (golygwyr) Oxford Handbook on AI Governance.

Coglianesse, C. a Lai, A. (2022b). **Algorithm vs. Algorithm**. Duke Law Journal. 72:1281-1340.

Coglianesse, C. a Lehr, D. (2017). **Regulating by Robot: Administrative Decision Making in the Machine-Learning Era**. Georgetown Law Journal. 105: 1147-1223.

Swyddfa Diogelu Ariannol Cwsmeriaid. (2022). **Consumer Complaint Database**. Cyrchwyd o <https://www.consumerfinance.gov/data-research/consumer-complaints/>

Drucker, P. F. (1980). **The Deadly Sins in Public Administration**. Public Administration Review. 40, 2: 103-106.

Gilad, S. (2015). **Political pressures, organisational identity, and attention to tasks: Illustrations from pre-crisis financial regulation**. Public Administration. 93, 3: 593-608.

Giles, C. (2022). **Next Generation Compliance: Environmental Regulation for the Modern Era**. Cyrchwyd o <https://global.oup.com/academic/product/next-generation-compliance-9780197656747?cc=us&lang=en&>

Gunningham, N. (2015). **Compliance, Enforcement and Regulatory Excellence**. Penn Program on Regulation. Cyrchwyd o <https://www.law.upenn.edu/live/files/4717-gunningham-ppr-bicregulatordiscussionpaper-06>

Hackitt, J. (2018). **Building a safer future: Independent review of building regulations and fire safety – Final report**. Llywodraeth y DU. Cyrchwyd o <https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-building-regulations-and-fire-safety-final-report>

Hamzah, F. (2022). **Property owners, occupiers reminded to get SCDF approval before changing the use of premises.** CNA. 4 Ebrill 2022. Cyrchwyd o <https://www.channelnewsasia.com/singapore/property-owners-occupiers-change-use-scdf-approval-fire-safety-2606571>

Heaton, B. (2015). **New York City Fights Fire with Data.** Government Technology. Cyrchwyd o <https://www.govtech.com/public-safety/new-york-city-fights-fire-with-data.html>

McAllister, L., K. (2012). **Third-Party Programs to Assess Regulatory Compliance. Administrative Conference of the United States.** Cyrchwyd o [https://www.acus.gov/sites/default/files/Third-Party-Programs-Report\\_Final.pdf](https://www.acus.gov/sites/default/files/Third-Party-Programs-Report_Final.pdf)

Metzenbaum, S. a Vasisht, G. (2015). **What Makes a Regulator Excellent? Mission, Funding, Information and Judgment.** The Vocker Alliance. Cyrchwyd o <https://www.volckeralliance.org/resources/what-makes-regulator-excellent-mission-funding-information-and-judgment>

National Academies of Sciences, Engineering, and Medicine. (2018). **Designing Safety Regulations for High-Hazard Industries.** Washington DC: The National Academies Press

Llywodraeth Seland Newydd. (2022). **Building levy.** Cyrchwyd o <https://www.building.govt.nz/building-officials/building-levy/>

New Zealand Government Building Performance. (2016). **Building warrants of fitness.** Cyrchwyd o <https://www.building.govt.nz/building-officials/guides-for-building-officials/building-warrants-of-fitness/>

Llywodraeth yr Alban. (2019). **Centralized hub for verification of complex fire engineered solutions in Scotland: feasibility study.** Cyrchwyd o <https://www.gov.scot/publications/feasibility-centralized-hub-verification-complex-fire-engineered-solutions-scotland/pages/4/>

Smarter Technologies. (2022). **Smart Building Compliance and Quality Control.** Cyrchwyd o <https://smartertechnologies.com/building-compliance-and-quality-control/>

The City of San Diego (dim dyddiad). **Code Enforcement.** Cyrchwyd o <https://www.sandiego.gov/development-services/code-enforcement>

Weinberg, M. (2021). **Strategic Housing Code Enforcement: A Multidisciplinary Approach to Improving Habitability**. *Georgetown Journal on Poverty Law and Policy* 29: 73-91.

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Rhaglen Lywodraethu: Diweddariad** Cyrchwyd o <https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-html>

Llywodraeth Cymru. (2021b). **Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Fersiwn gwyno o'r Papur Gwyn**. Cyrchwyd o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/fersiwn-gwyno-or-papur-gwyn.pdf>

Zaring, D. (2012). **Regulating by Repute**. *Michigan Law Review*. 110:6 1003-1018.

# Atodiad 1: Cyfranogwyr bord gron

## Arbenigwyr

- Yr Athro **Brian Meacham**, Pennaeth Rheoli Meacham Associates ag arbenigedd mewn polisi rheoleiddio a diogelwch tân.
- Yr Athro **Jeroen van der Heijden**, Cadair Ymarfer Rheoleiddio, Prifysgol Victoria Wellington. Arbenigwr ym maes diwygio rheoleiddio, gan gynnwys rôl y llywodraeth wrth gynllunio diwygiadau effeithiol.
- Yr Athro **Cary Coglianese**, Cyfarwyddwr sefydlu Rhaglen Penn ar Reoleiddio, Athro'r Gyfraith ac Athro Gwyddor Wleidyddol ym Mhrifysgol Pennsylvania.
- Yr Athro **Chris Carrigan**, Athro Cyswllt Polisi Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Trachtenberg Prifysgol George Washington a Chyd-gyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Rheoleiddiol GW.

## Llywodraeth Cymru, Tai ac Adfywio – Diogelwch Adeiladau

- Audrey Johns, Pennaeth Polisi Diwygio Diogelwch Adeiladau
- David Bell, Arweinydd Gorfodi a SanCSIynau ym Mholisi Diwygio Diogelwch Adeiladau
- Lili Thompson, Rheolwr Polisi Diwygio Rheoleiddiol

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

- Dan Bristow, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer
- Dr Helen Tilley, Uwch-gymrawd Ymchwil
- Dr Tom Haines-Doran, Cydymaith Ymchwil
- Charlotte Morgan, Cynorthwydd Ymchwil

# Atodiad 2: Enghreifftiau o bwyllgorau cydlynu canolog

Yn dilyn y drafodaeth, darparodd yr arbenigwyr enghreifftiau hefyd o bwyllgorau cydlynu canolog, a allai fod yn ddefnyddiol i dybiaethau Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r rheoliadau adeiladu:

- Mae pwyllgorau rhyngasiantaethol yn arfer cyffredin yn yr Unol Daleithiau. Mae un asiantaeth fel arfer yn arwain y gwaith o gydlynu asiantaethau rheoleiddio eraill, ac mae hyn yn aml yn gweithio'n dda. Mae enghreifftiau o asiantaethau cydlynu yn cynnwys y **Pwyllgor Diogelwch Rhyngasiantaethol (ISC)**, y **Pwyllgor Rhyngasiantaethol ar Reoli Eiddo** a'r **Ganolfan Dân Rhyngasiantaethol Cenedlaethol**.
- Mae'r **Massachusetts Vehicle Check (MVC)** yn rhaglen ar y cyd rhwng y Department of Environmental Protection a'r Registry of Motor Vehicles. Mae angen yr MCV fel corff cydlynu, gan fod y ddwy asiantaeth yn gyfrifol am wahanol agweddau ar ddiogelwch cerbydau.
- Mae Canada wedi cyflwyno **model llywodraethu newydd ar gyfer datblygu cod adeiladu cyson**, sy'n dibynnu ar arbenigedd a mewnbwn gan y diwydiant, y gymuned reoleiddio, grwpiau diddordeb cyffredinol, sefydliadau, a'r cyhoedd.
- Mae pwyllgorau cydlynu canolog yn aml yn cael eu labelu fel 'ombwdsmon' (mae rhywfaint o lithriad cysyniadol o amgylch y term hwnnw yn rhyngwladol). Un enghraifft yw'r **Ombwdsmon Busnesau Bach yn Pennsylvania** a grëwyd yn dilyn pryder am fusnesau bach yn cael eu gorlwytho gan ofynion rheoleiddiol. Mae'n darparu rôl eiriolaeth sylfaenol i fusnesau bach o fewn adran berthnasol y dalaith. Gall perchnogion busnesau bach sydd â chwestiwn neu broblem gyda'r adran ofyn am gymorth gan yr Ombwdsmon i leisio eu pryderon.
- Mae cyhoeddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), **'Siopau un stop ar gyfer dinasyddion a busnesau'** yn rhoi enghreifftiau o arferion da ac astudiaethau achos wrth ddarparu 'siopau un stop' sy'n canoli gwasanaethau rheoleiddio er budd dinasyddion a busnesau, sy'n helpu i gyfleu gofynion rheoleiddio yn glir.
- Mae'r **Swyddfa Gwybodaeth a Materion Rheoleiddiol** yn yr Unol Daleithiau yn cydlynu polisi rheoleiddio ar gyfer yr holl asiantaethau cangen gweithredol

ffederal eraill. Mae gwaith cydlynu rhwng asiantaethau hefyd yn cael ei gyflawni'n aml trwy fecanweithiau anffurfiol, megis memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

- Mae'r **Cynhadledd Weinyddol yr Unol Daleithiau (ACUS)** yn asiantaeth ffederal annibynnol yr Unol Daleithiau sy'n nodi ffyrdd o wella gweithrediad asiantaethau eraill y llywodraeth. Mae ACUS yn cyhoeddi argymhellion i wella effeithlonrwydd a digonolrwydd yr asiantaethau hyn. **Edrychwch yma** i gael argymhellion a wnaed ar fynd i'r afael ag achosion o orgyffwrdd a darnio rhwng asiantaethau a gwella'r dulliau o gydlynu cyfrifoldebau'r asiantaethau cysylltiedig hyn.

Enghraifft arall o bwyllgor cydlynu canolog a ddarparwyd gan yr arbenigwyr sy'n cynnig persbectif diddorol, ond na fyddai mor uniongyrchol berthnasol oherwydd ei fod yn seiliedig ar system drwyddedau yn hytrach na system reoleiddio, yw'r canlynol:

- **Darpariaethau Cyffredinol Deddf 'Wabo'** yn yr Iseldiroedd. Mae'r Ddeddf yn gosod y rheolau ar gyfer rhoi **Trwydded Unigryw ar gyfer Agweddau Ffisegol**. Mae'n sicrhau bod pobl sy'n berchen ar adeilad neu'n gwneud cais am drwydded adeiladu yn delio ag un awdurdod yn unig yn hytrach na sawl un. Mae'r awdurdod hwn yn prosesu'r drwydded ei hun, neu mae'n dyrannu ymholiadau a thasgau i bartïon cymwys priodol yn y modd mwyaf effeithlon posibl. Mae'r 'awdurdod cymwys' hefyd yn gyfrifol am orfodi'r drwydded a rheoliadau eraill a enwir yn y Ddeddf.





## Manylion yr Awduron

Mae **Charlotte Morgan** yn Gynorthwydd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Tom Haines-Doran** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Charlotte Morgan**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**OGL** Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored